“Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu’r ddaear.”
(Mathew 5:5)

Dyma’r trydydd o’r Gwynfydau, dywediadau paradocsaidd Iesu. Mae’r byd yn aml yn dweud wrthym ei bod yn well i ni ymuno â’r bleiddiaid na pherthyn i’r defaid, rhag i ni gael ein llarpio. I’r gwrthwyneb, mae’r Arglwydd yn dweud mai’r addfwyn gaiff etifeddu’r ddaear.

Addfwynder

Mae’r gair *addfwyn* yn awgrymu gwendid di-asgwrn-cefn i lawer heddiw. Ond i’r Groegiaid doedd hynny ddim yn wir.

Roedd tair agwedd i’r gair Groeg ‘praotës’:

1. Roedd yn sefyll rhwng digofaint ar y naill law a difaterwch ar y llaw arall; rhwng dicter mawr a dim dicter o gwbl. Felly, roedd yn golygu bod yn ddig ar yr amser iawn ac am y rheswm iawn. Ac mae hyn yn ein hatgoffa o’r Arglwydd Iesu ei hun. Mae Pedr yn ein hatgoffa amdano: **“pan fyddai’n cael ei ddifenwi, ni fyddai’n difenwi’n ôl”** (1 Pedr 2:23). Gweddïodd ar y groes i’w Dad nefol faddau i’w erlidwyr. Ond wrth weld y cyfnewidwyr arian yn y deml fe aeth yn ddig. Roedd yn ddig pan oedd anrhydedd Duw yn cael ei sarnu dan draed. Bwriad Duw oedd i’r deml fod yn dŷ gweddi. Roedd yn ddig pan oedd dynion yn colli’r cyfle o gael gweddïo yn y deml. Hefyd roedd yn ddig pan oedd ei ddisgyblion yn rhwystro rhieni rhag dod â’u plant bychain ato (Marc 10:14).
2. Roedd y gair ‘praotës’ hefyd yn disgrifio anifail oedd wedi cael ei ddofi. Dyma’r anifail sydd wedi ei hyfforddi i ufuddhau i orchymyn ei feistr ac i ymateb i symudiad yr awenau. Mae’n disgrifio’r ceffyl sydd wedi cael ei ‘dorri i mewn’ yn hytrach na’r un gwyllt nad yw’n gadael i neb ddod yn agos ato heb gicio’n ffyrnig. Mae hyn yn ddarlun o’n hagwedd naturiol at Dduw heb i’r Ysbryd Glân ein hyfforddi a’n dofi. Mae’r apostol Paul yn sôn am roi heibio pob **‘nwyd, blys, a thrachwant’** (Col. 3:5) a gadael i’r Ysbryd Glân gynhyrchu ei ffrwythau ef sydd yn cynnwys **‘tynerwch calon, caredigrwydd, gostyngeiddrwydd, addfwynder’** (Col. 3:12).
3. Hefyd roedd y gair ‘praotës’ yn golygu gostyngeiddrwydd yn hytrach na meddwl yn fawreddog. Yr ydym yn sôn am berson ‘ffroenuchel’ weithiau sydd yn ei weld ei hun yn uwch ac yn well nag eraill. Y gwrthwyneb i hynny yw gostyngeiddrwydd, sef gweld ein hunain yn is na Duw, ac felly mewn angen am ei gymorth a’i ras, ei faddeuant a’i hyfforddiant. Heb yr addfwynder yma, does dim posib ein dysgu. Pan mae’r Ysbryd yn dangos i ni ein tlodi ysbrydol,

ac yn ein harwain i alaru am ein pechod, mae'n dangos i ni na allwn wneud dim yn iawn heb drugaredd, nerth a doethineb Duw.

Gwyn eu byd

Mae'r person sydd yn addfwyn yn hapus oherwydd ei fod yn debyg i Iesu Grist ei hunan. Gallodd ddweud am ei hunan: **"oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon."** (Math. 11:29). Darostwng ei hunan wnaeth Duw y Mab wrth wisgo cnawd a diosg ei goron nefol. Daeth ag agwedd gwas a dysgodd ufudd-dod, gan fod yn ufudd hyd angau'r groes. Yn sgil hynny, tra-dyrchafwyd Crist, ac felly caiff yr addfwyn ei ddyrchafu gyda Christ hefyd.

Etifeddu'r ddaear

Ar yr olwg gyntaf ,mae'r addewid yma'n edrych yn amhosib. Pa Gristion sydd erioed wedi etifeddu'r ddaear? Mae'n golygu bod yr addfwyn yn derbyn bendithion tymhorol heb gynnwrf na phryder mawr, oherwydd ei fod yn eu 'hetifeddu' gan Dduw. Yn ail, fe fydd yr addfwyn, sef gwir saint Duw, yn etifeddu'r ddaear yn llawn wrth deyrnasu gyda Christ pan ddaw mewn gogoniant.

Y presennol

Wrth i'r Cristion geisio teyrnas Dduw yn gyntaf, mae'n derbyn holl angenrheidiau bywyd yn sgil hynny: **"Ond ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi"** (Math. 6:33)

Mae addfwynder yn gwneud person yn fendith i eraill ac yn aml bydd eraill yn ei fendithio yntau. Ar ôl i Paul iacháu nifer o gleifion Melita yn enw Iesu: **"Rhoddodd y bobl hyn anrhydeddau lawer inni, ac wrth inni gychwyn ymaith, ein llwytho â phopeth y byddai arnom ei angen"** (Act. 28:10).

Mae meddiannu ychydig o fendithion y ddaear gyda bendith Duw yn werth llawer mwy nag etifeddu llawer hebddo Ef.

Fe ddywedodd rhywun nad yw'r annuwiol mwyaf cyfoethog ddim yn berchen y ddaear; y ddaear sydd piau ef!

Y dyfodol

Mae addewid Iesu Grist yn mynd i gael ei gyflawni'n llawn yn ei ail-ddyfodiad, yn amser y nef newydd a'r ddaear newydd. Bryd hynny, bydd disgyblion Crist yn teyrnasu gydag ef, ac yn cael rhan yn y ddinas sanctaidd newydd (Dat. 21:14).